

Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2SD

12/10/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol ac un flaenoriaeth o gynllun gwella'r ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu, ac i weithio'n fwy annibynnol

- Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth addas ar gyfer datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion. Maent yn dechrau defnyddio gwybodaeth o weithgareddau hunanwerthuso i gynllunio gwelliannau, gan gynnwys darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu a datblygu'n ddysgwyr cynyddol annibynnol.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o sut i hyrwyddo medrau dysgu annibynnol disgyblion. Mae hyn yn cefnogi athrawon wrth iddynt ddechrau mireinio eu dulliau addysgu a darparu mwy o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wneud dewisiadau am yr hyn maent yn ei ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.
- Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud penderfyniadau am yr hyn maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Wrth weithio yn yr ardaloedd dysgu, mae disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd buddiol i wneud penderfyniadau'n annibynnol dros amser, er enghraifft wrth ddewis pa adnoddau ac offer i'w defnyddio.
- Ym mlynnyddoedd uwch yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau'n gynyddol annibynnol drwy'r defnydd o ystod o ddulliau effeithiol, gan gynnwys y waliau gweithio. Mae'r rhain yn cynnig arweiniad gwerthfawr iddynt ar sut i gyflawni eu gwaith i safon uchel. Mae staff yn gwneud defnydd da o ddulliau hybu

annibyniaeth a dyfalbarhad, sy'n galluogi'r disgyblion i oresgyn heriau yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion, a bod adborth yn eu helpu i wella'u dysgu ymhellach

- Mae arweinwyr yn cynnwys y staff yn bwrpasol mewn gweithgareddau hunanwerthuso, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion. Yn seiliedig ar hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ddarpariaeth a'r agweddau penodol sydd angen eu gwella.
- Drwy holiaduron, mae arweinwyr yn casglu barn disgyblion am agweddau penodol o'r ddarpariaeth, gan gynnwys lefel yr her yn y sesiynau dysgu a pha mor ddefnyddiol yw adborth athrawon wrth eu helpu i wella'u dysgu.
- Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r gweithgareddau hunanwerthuso yn bwrpasol i lunio camau gweithredu synhwyrol sy'n adeiladu ar yr arferion gorau mewn addysgu a dysgu.
- Lle mae'r arfer ar ei gorau, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion wneud dewisiadau am lefel yr her yn eu gweithgareddau dysgu. Maent yn cynnig adborth llafar a nodau gwella adeiladol wrth gefnogi'r disgyblion i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i gysoni'r arferion gorau ar draws yr ysgol ac i gydweithio ag ysgolion eraill er mwyn rhannu ac efelychu arferion da.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6633045>

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.